# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd dros fideo gynadledda, ddydd Llun, 16 Tachwedd 2020 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Siân Williams (Cadeirydd) – Cyfoeth Naturiol Cymru
Judith Greenhalgh (Is-gadeirydd) – Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyng. Goronwy O. Edwards – (ar ran y Cyng. Sam Rowlands) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyng. Julian Thompson-Hill – (ar ran y Cyng. Hugh Evans) - Cyngor Sir Ddinbych
Gareth Evans (ar ran Bethan Jones) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Wendy Jones – Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Lisa Williams - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Richard Firth – Iechyd Cyhoeddus Cymru
Jason Devonport – Heddlu Gogledd Cymru
Vicky Poole – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
Y Cynghorydd Carol Marubbi – Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Conwy
Y Cynghorydd Gordon Hughes – Cynrychiolydd Cyngor Tref, Cymuned a Dinas Sir Ddinbych
Helen MacArthur – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Emma Lea - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Helen Millband - Cyfoeth Naturiol Cymru
David Powell – Cyfoeth Naturiol Cymru

## HEFYD YN BRESENNOL

Nicola Kneale - Cyngor Sir Ddinbych
Fran Lewis - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Shannon Richardson - Cyngor Sir Ddinbych
Steve Price - Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych
Kath Jones – Gweinyddwr Pwyllgorau, Cyngor Sir Ddinbych
Sandra Williams – Cyfieithydd

## ARSYLWYR

Y Cynghorydd Meirick Davies (Cyngor Sir Ddinbych) a David Wilson (Archwilio Cymru)
Jez Hemming – Adroddwr Democratiaeth Leol (y Wasg)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Bethan Jones – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cyng. Hugh Evans – Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Sam Rowlands – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2020.

**Materion Sy'n Codi –** Tudalen 9, Eitem 5 Cynnig o Gefnogaeth: Cenhadaeth Dinesig Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Prifysgol Glyndŵr – adroddodd y Cadeirydd ar ei drafodaethau gyda Nina Ruddle, Prifysgol Glyndŵr, ynglŷn â'u cynnig i hwyluso gweithdy i adolygu blaenoriaethau'r Bwrdd a beth yw'r ffordd orau o'u symud ymlaen. Cymerodd Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ran mewn gweithdy tebyg a dderbyniwyd yn dda. Ystyriodd y Bwrdd y byddai teilyngdod mewn cymryd y cynnig a byddai sesiwn gweithdy ar wahân yn cael ei drefnu at y dibenion hynny. Roedd cyfarfod anffurfiol o'r Bwrdd yn cael ei drefnu ar gyfer 25 Ionawr, 2021, a chytunwyd i ddefnyddio'r dyddiad hwn ar gyfer sesiwn o'r gweithdy os yw'n bosib. Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Nina Ruddle, Prifysgol Glyndŵr i sicrhau eu hargaeledd i hwyluso'r gweithdy ar 25 Ionawr, 2021.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir, a*

*(b) bod y cadeirydd yn cysylltu â Phrifysgol Glyndŵr gyda'r bwriad iddynt hwyluso sesiwn gweithdy ar gyfer y Bwrdd ar 25 Ionawr, 2021.*

**3 DIWEDDARIAD AR Y FLAENORIAETH CADERNID AMGYLCHEDDOL**

Cyflwynwyd adroddiad (a rannwyd yn flaenorol) gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sy'n darparu diweddariad ar gynnydd ac adolygiad o'r pum maes gwaith yn y flaenoriaeth Cadernid Amgylcheddol gan yr Is-grwpiau Cefnogi Cadernid Amgylcheddol fel y gofynnwyd gan y Bwrdd yn sgil pandemig Covid-19, ac amlinellwyd dau brosiect y cyflwynwyd i broses grant Dyrannu Cyllid Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

Adroddodd Helen Millband ar ganfyddiadau'r adolygiad ynghyd ag argymhellion yr Is-grŵp. Er bod y pum maes gwaith yn cael eu hystyried i fod yn berthnasol o hyd, argymhellwyd bod y prosiectau canlynol yn cael eu gohirio oherwydd capasiti neu nid yw'r amser yn iawn yn ystod pandemig (1) gweithio gyda chymunedau i ddatblygu addewidion a newidiadau gwyrdd, (2) edrych ar y broses graffu i wneud y mwyaf o fuddion cymunedol o ddatblygiadau adeiladau, a (3) gweithio gyda thimau cynllunio i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth gynllunio datblygiadau newydd. Awgrymwyd hefyd y dylid datblygu blaenoriaeth newydd ynglŷn â gofodau gwyrdd a glas ar gyfer cymunedau a nododd trafodaethau ynghylch gweithio o gartref a theithio dau is weithred newydd dan y gam gweithredu lleihau carbon. Cafodd crynodeb o'r meysydd gwaith hynny eu manylu yn yr adroddiad. Trafodwyd syniadau am brosiectau ar gyfer £25,000 Cyfoeth Naturiol Cymru gan yr is-grŵp, ac mae dau brosiect wedi cael eu cymryd ymlaen ar ôl y cyfarfod sy'n ymwneud â (1) rhaglen pweru beics trydan ar yr Arfordir (£12,000) a (2) Coetir Cymunedol Glan Morfa (£13,000).

Yn ystod trafodaeth, cydnabuwyd y materion ynglŷn â chapasiti, ond roedd amharodrwydd ar gyfer gohirio'r blaenoriaethau a nodwyd, yn benodol y buddion amgylcheddol, a oedd wedi cael eu creu oherwydd y pandemig a'r momentwm parhaus, a brwdfrydedd y cyhoedd o ran hynny. Adroddodd y Cynghorydd Julian

Thompson-Hill bod Sir Ddinbych wedi newid ei gyfansoddiad yn ddiweddar i sicrhau bod pob penderfyniad yn rhoi sylw i i'r effaith amgylcheddol ac roedden nhw am ystyried y polisi buddion cymunedol cyn hir ac roedd yn pryderu y byddai gohirio'r blaenoriaethau hynny yn profi i fod yn wrthgynhyrchiol. Roedd y farn honno'n cael ei rhannu gan y Cynghorydd Goronwy Edwards, o wybod bod gymaint o waith wedi cael ei gynnal wrth ymgysylltu gyda phreswylwyr a chynghorau tref/cymuned o fewn Conwy ac roedd awydd gan gymunedau i gael eu cynnwys, ac roedd yn teimlo y dylid datblygu hynny ymhellach. Er mwyn egluro'n bellach, adroddodd Helen Millband bod yr is-grŵp yn teimlo bod capasiti yn gyfyngedig ac roeddent wedi cwestiynu a oedd yn addas gyrru'r addewidion amgylcheddol hyn ymlaen pan roedd cymunedau yn mynd i'r afael â sawl mater arall. Serch hynny, byddai barn y Bwrdd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Is-grŵp. Fe wnaeth Helen MacArthur gydnabod y gwaith caled a gynhaliwyd yn nhermau ymgysylltu â'r gymuned, ond petai'r blaenoriaethau hyn yn cael eu gohirio, fe amlygodd bwysigrwydd deall effaith y camau hynny, a'r amserlen ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol. Cyfeiriodd Judith Greenhalgh at gyfoeth ymgysylltu â'r gymuned a oedd wedi codi o'r ymgynghoriad cyfredol ar Strategaeth Hinsawdd ac Ecoleg Sir Ddinbych, a thra bo sefydliadau statudol yn cael hi'n anodd o ran capasiti, roedd y cymunedau yn ymatebol iawn ac roedd hi'n teimlo y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddal ddychymyg y cyhoedd ar y mater hwn.

Trafododd y Bwrdd y flaenoriaeth arfaethedig newydd ynghylch gofodau gwyrdd a glas. Ehangodd Helen Millband ar y cyfle i adeiladu ar y frwdfrydedd newydd ar gyfer yr amgylchedd lleol yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r posibilrwydd o helpu i adfer a chysylltu i ddatblygu mewn perthynas â blaenoriaeth "Cefnogi Lles Meddyliol Da i bob oed". Adroddodd ymhellach ar y ddau brosiect a oedd wedi eu cymryd ymlaen a'r cysylltiadau gyda'r gwaith fel rhan o'r datganiadau ardal yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio arnynt. Roedd llawer o gefnogaeth ar gyfer y flaenoriaeth newydd a'r buddion i'r cymunedau, ond fe nodwyd efallai bod effaith ar adnoddau o ran cynnal ardaloedd awyr agored a gwneud y mwyaf ohonynt er budd i bawb. Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd o'r cysylltiadau rhwng Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, a fe groesawodd gyfranogiad sefydliadau partner yn y sesiynau ymgysylltu ar-lein hynny mewn perthynas â gwaith datganiadau ardal a hwyluswyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Byddai manylion y sesiynau hynny'n cael eu rhannu ar ôl y cyfarfod.

Wrth ddod â'r drafodaeth i ben, crynhodd y Cadeirydd sylwadau'r Bwrdd, sef yn hytrach na gohirio'r meysydd blaenoriaeth yn syth, bydd angen cysylltu gyda chymunedau gyda'r bwriad o adeiladu ar yr ymgysylltiad cadarnhaol a'r cynnydd sydd eisoes wedi cael ei wneud. Cytunwyd bod angen gwneud gwaith ar sut i barhau i ymgysylltu gyda chymunedau orau a chadw'r brwdfrydedd, boed drwy addewidion o ofodau gwyrdd a glas, ac i weithio gyda'r sawl sydd ag awydd am newid amgylcheddol, a chapasiti ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ddarparu newidiadau cadarnhaol o fewn eu hardaloedd, yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb i sefydliadau statudol i'w gyflawni iddynt.

***PENDERFYNWYD –***

(a) *derbyn a nodi'r adroddiad cynnydd a'r adolygiad gan yr Is-grŵp Cefnogi Cadernid Amgylcheddol;*

*(b)* *ailymweld â'r blaenoriaethau presennol a chynnal gwaith cymunedol gyda'r bwriad o ddatblygu'r meysydd gwaith hynny;*

*(c)* *datblygu blaenoriaeth newydd sy'n adnabod pwysigrwydd gofodau gwyrdd a gas lleol ar gyfer cymunedau;*

*(d)* *mae dau gam gweithredu is-waith ychwanegol ynglŷn ag arferion gwaith staff partneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a sefydlu cysylltiadau gyda'r strategaeth cludiant ac ynni rhanbarthol yn berthnasol, a*

*(e)* *cytuno ar gyfrifoldeb awgrymedig wedi'i rannu ar gyfer adrodd a monitro camau gweithredu, ar draws partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*

## 4 DIWEDDARIAD AR FLAENORIAETH YMRYMUSO'R GYMUNED – EITHRIO DIGIDOL

Cyflwynodd Nicola Kneale yr adroddiad (a rannwyd yn flaenorol) yn manylu ar y cyfleoedd ar gyfer gwella isadeiledd digidol yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn dilyn cytundeb y Bwrdd yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf bod angen canolbwyntio ar bobl sy'n cael eu heithrio'n ddigidol a sgiliau digidol. [Cynigiwyd adroddiad ar sgiliau digidol ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.]

Cynghorwyd aelodau o'r safle gyfredol mewn perthynas â chysylltedd digidol a'r gefnogaeth sy'n bodoli ar gyfer gwella isadeiledd digidol. Roedd gan y ddwy sir lawer o ardaloedd gwledig gyda eiddo "gwyn" (eiddo sy'n derbyn llai na 30Mb). Roedd gan BT Openreach gynllun i gyflwyno cysylltiadau ffeibr ar draws rhannau o'r siroedd erbyn mis Mehefin 2022, ond ni fyddai llawer o'r eiddo yn rhan o'r cynllun. Roedd cyllid gan gynllun taleb Rural Gigabite ar gael i'r sawl nad ydynt yn rhan o'r cynllun ffeibr a byddai cynllun arall gan y llywodraeth, Rhwydweithiau Ffeibr Llawn Lleol, yn cyflwyno cysylltiadau ffeibr llawn i adeiladau cyhoeddus o rŵan hyd at fis Mawrth 2021 (er efallai fydd ychydig o lithriant). Serch hynny, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r cynlluniau, byddai gan sawl ardal gysylltedd gwael o hyd. Mae Sir Ddinbych wedi buddsoddi mewn Swyddog Digidol (Chwefror 2020 – Mawrth 2021) a roedd Conwy wedi cynllunio i benodi Swyddog Digidol (Ionawr – Rhagfyr 2021) gyda gwahanol ddulliau o weithio i fynd i'r afael â'r mater. Roedd dadansoddiad o'r isadeiledd digidol wedi arwain at nifer o argymhellion i effeithio ar welliant, a oedd yn cynnwys proses flaenoriaethau ar gyfer cymunedau; cyllid hirdymor ar gyfer swyddi Swyddog Digidol, a dull ar y cyd o weithio o wybod y nifer yr eiddo "gwyn" sy'n ffinio'r siroedd.

Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd cysylltedd da sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig gyda mwy o bobl yn gweithio o gartref a busnesau yn symud rhai o'u gweithgareddau ar-lein, a oedd yn darparu achubiaeth i sawl cymuned wledig hefyd. Awgrymodd y Cynghorydd Goronwy Edwards y dylid cynnal trafodaethau gyda BT Openreach o wybod yr ymagwedd dameidiog er mwyn darparu cyfle iddynt gydweithio ar ddull cydlynol o weithio i fynd i'r afael ag anghenion y cymunedau yn well. Cefnogwyd argymhelliad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ddiffiniad o 'gymunedau gwledig' gyda BT er mwyn blaenoriaethu'r cymunedau gyda'r diffy cysylltedd mwyaf. Cadarnhaodd Judith Greenhalgh bod

cysylltedd digidol wedi cael ei gydnabod gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) fel blaenoriaeth uchel. I sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu, awgrymodd i geisio diweddariad gan BUEGC er mwyn galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau sut y gallant atodi'r cynlluniau gwaith hynny. Cytunwyd i estyn gwahoddiad i Alwen Williams o'r BUEGC i gyfarfodydd yn y dyfodol i drafod y mater yn fanylach. Cytunwyd hefyd i sicrhau a oedd mater wedi cael ei godi fel blaenoriaethau mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill gyda'r posibilrwydd ar gyfer dull o weithio ar y cyd er mwyn ymdrechu i gael mwy o ddylanwad mewn trafodaethau yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru neu BT Openreach.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) bod aelodau'n nodi'r sefyllfa gyfredol o ran Cysylltedd Digidol (manylion yn Atodiad 1 yr adroddiad), ynghyd â dadansoddiad o Gryfderau, Cyfyngiadau, Gwendidau a Bygythiadau ar gyfer bob pwnc;*

*(b) gwahodd Alwen Williams o BUEGC i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y ffrydiau gwaith sy'n cael eu cynnal i fynd 'ir afael â chysylltedd digidol yn yr ardal, a*

*(c) cysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill i sicrhau a oeddent wedi nodi cysylltedd digidol fel maes blaenoriaeth gyda'r posibilrwydd o ddarparu ymateb gydlynol mewn unrhyw drafodaethau gyda Bt Openreach a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.*

Ar y pwynt hwn (10.40am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

**5 DIWEDDARIAD AR Y FLAENORIAETH LLES MEDDYLIOL**

Cyflwynwyd adroddiad (a rannwyd yn flaenorol) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn darparu cefndir i les meddyliol ynghyd â'r camau gweithredu a nodwyd a phrosiectau arfaethedig i fynd i'r afael â lles meddyliol a chefnogi blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o wella lles meddyliol i bawb. Gofynnodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am adolygiad yn sgil pandemig Covid-19, gan ganolbwyntio ar les pobl ifanc.

Darparodd Richard Firth ychydig o gefndir i'r maes blaenoriaeth a oedd yn arwain at yr adolygiad diweddaraf, a llywiodd yr aelodau drwy'r gwaith a wnaed ynghylch lles meddyliol yng Nghonwy a Sir Ddinbych ac effaith pandemig y coronafeirws. Canfu'r adroddiad bod y pedwar prosiect posib a nodwyd ar gyfer blaenoriaeth Lles Meddyliol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i fod ar gael, ac argymhellwyd bod dewis yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn benodol yn cael ei ymgorffori i'r prosiectau o wybod yr effaith sylweddol mae'r pandemig wedi ei gael ar y grŵp hwnnw, a allai ganolbwyntio ar sefydliadau addysgol. Er y gellir ystyried y pum maes blaenoriaeth fel endid ar wahân, roedd gorgyffwrdd sylweddol, ac ailadroddwyd pob un o'r meysydd prosiectau posib a nodwyd, a restrir isod -

- Lles meddyliol y gymuned ffermio/pobl sy'n byw yn y wlad
- Llyfrgelloedd ar gyfer lles meddyliol
- Adfer y pum ffordd at les meddyliol

- Tîm Gweithredu Lleol / ICON
- Lles Meddyliol mewn Lleoliadau Addysgol

Cydnabu’r Aelodau ddilysrwydd pob un o'r prosiectau posib ac fe gafwyd trafodaeth am ba brosiectau yr oeddent yn dymuno eu symud ymlaen, a lle gallai’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu gwerth i’r gwaith sylweddol oedd eisoes wedi cael ei gynnal. Yn ystod trafodaeth, mynegwyd cefnogaeth i faes prosiect newydd a nodwyd, sy’n ymwneud â phlant a phobl ifanc o wybod y dystiolaeth a amlygwyd yn yr adroddiad, ynghyd â lles meddyliol cymunedau ffermio/gwledig sydd wedi cael eu heffeithio’n sylweddol gan y pandemig, ynghyd â heriau yn y dyfodol, megis Brexit.  Fel rhan o’r trafodaethau hynny, nodwyd y gellir integreiddio agweddau o'r tri phrosiect arall i’r ddau faes blaenoriaeth hynny o wybod natur trawsffiniol y gwaith hwnnw. Amlygwyd y cysylltiadau rhwng gwaith is-grŵp Cadernid Amgylcheddol a buddion gofodau gwyrdd, gyda’r flaenoriaeth cefnogi lles meddyliol da, a nododd aelodau bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i drafod y mater. Codwyd y posibilrwydd o’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu cefnogaeth a chysylltiadau i’r trydydd sector/sector gwirfoddol, ond roedd Wendy Jones yn teimlo bod y grwpiau cymunedol hynny’n gweithio orau heb ymyrraeth neu gyfeiriadaeth. Serch hynny, trafodwyd pwysigrwydd bod sefydliadau partner yn gwneud eu hunain ar gael i ddarparu cymorth i grwpiau cymunedol pan caiff eu cysylltu, er mwyn adeiladau ar y cysylltiadau a'r perthnasau cadarnhaol hynny. Oherwydd diffyg capasiti yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, awgrymwyd bod aelodau’n enwebu’r personél priodol o fewn eu sefydliadau i gyfrannu at ddarparu’r prosiectau y cytunwyd arnynt.

***PENDERFYNWYD –***

*(a)* *cadarnhau’r prosiectau ar gyfer blaenoriaeth lles meddyliol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel a ganlyn -*

- *Lles meddyliol y gymuned ffermio/pobl sy’n byw yn y wlad*
- *Lles Meddyliol mewn Lleoliadau Addysgol, a*

*(b)* *bod pob sefydliad partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn enwebu unigolyn i eistedd ar yr is-grŵp Prosiect Blaenoriaeth Lles Meddyliol erbyn diwedd mis Tachwedd 2020.*

**6 ASESIAD LLES A GRANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS LLYWODRAETH CYMRU**

Rhoddodd Nicola Kneale ddiweddariad ar lafar ynglŷn â grant Llywodraeth Cymru i’r Bwrdd Gwasanaethu Cyhoeddus ac Asesiad Lles.

Nid oedd grant blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (tua £85,000 i ranbarth Gogledd Cymru) wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oherwydd Covid-19. O wybod yr ymarfer ystadegol ac ymgysylltu sylweddol ar Asesiadau Lles oedd fod i gael eu cynnal, gobeithiwyd y byddai cyllid yn cael ei roi i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y flwyddyn ariannol nesaf i helpu gyda datblygu’r gwaith hwnnw.

Cynghorwyd Aelodau o Weithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i drafod y grant a'r meini prawf, a ffyrdd eraill o gefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni Asesiadau Lles o wybod y pwysau sylweddol ar gapasiti sefydliadau partner. Roedd trafodaethau'n cynnwys a ellir defnyddio'r grant i helpu i gomisiynu capasiti dadansoddol neu olygyddol i gyflawni'r asesiadau, yn ogystal â, a ellir ennill rhai arbedion maint o ddefnyddio gwaith ymchwil cenedlaethol a phrofi'r casgliadau hynny ar lefel leol.

Cytunodd y Bwrdd, petai grant yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, dylid canolbwyntio'r gwario ar Asesiadau Lles oherwydd eu pwysigrwydd ar gyfer datblygu cynlluniau strategol yn y dyfodol. Nododd y Bwrdd drafodaethau'r Gweithgor a chefnogi'r dull o weithio a gymerwyd o ran hynny, a'r achos a wnaed ar gyfer diogelu cyllid. Nodwyd hefyd y byddai swyddogion yn dechrau rhoi cynllun ar waith ar gyfer llunio Asesiadau Lles a cytunodd y Bwrdd i dderbyn adroddiad yn eu cyfarfod nesaf ar y cynnydd mewn perthynas â hynny.

Adroddodd y Cadeirydd ar adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, ac fe fynychodd sesiwn budd-ddeiliad yn ddiweddar ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd bod sefydliadau cyhoeddus yn disgyn dan y rheoliadau a bydd gofyn iddynt roi mewnbwn, gyda sesiynau pellach i ddod yn y misoedd nesaf. Codwyd nifer o faterion gan sefydliadau, a oedd yn cynnwys diffyg cyllid a'r disgwyliad bod cyflawni'n rhan o'r swydd, ynghyd â'r lefel o gefnogaeth a dderbyniwyd a'r cydbwysedd rhwng herio a chraffu. Codwyd materion eraill ynghylch caffael ac ariannu prosiectau ar y cyd. Roedd sefydliadau wedi cael eu gwahodd i sesiynau yn y dyfodol gyda Phwyllgor y Senedd i ddarparu adborth o safbwynt sefydliadu, a byddai'r cadeirydd yn mynd i sesiwn ym mis Ionawr gydag adroddiad i'w ddisgwyl ym mis Chwefror/Mawrth 2020.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) derbyn yr adroddiad ar lafar ar Grant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Asesiad Lles, yn ogystal â dull o weithio y Gweithgor wrth wneud achos am gyllid a chefnogi cyflawniad yr Asesiad Lles, a*

*(b) cyflwyno adroddiad cynnydd ar y sefyllfa bresennol ar gyfer llunio Asesiad Lles i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*

## 7 ADOLYGIAD BLYNYDDOL COFRESTR RISG BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd Nicola Kneale adroddiad (a rannwyd yn flaenorol) a oedd yn cyflwyno'r Gofrestr Risg ar gyfer adolygiad blynyddol.

Amlygwyd diwygiadau ers yr adolygiad diwethaf, fel a ganlyn -

**BGC 1 -** Y risg fod gan y BGC gyllid, adnoddau a chapasiti annigonol i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Lles. Roedd sgoriau risg cynhenid a gweddillol wedi cael eu hisraddio o A2 i B3 a D3 a C3 yn ôl eu trefn.

**BGC 3 -** Y risg fod y BGC yn methu sicrhau'r effaith fwyaf bosibl y gall ei gyflawni drwy ddull cydweithredol. Mae'r sgôr risg gweddilliol wedi ei israddio o B2 i C2.

**BGC 5 (risg newydd) -** Y risg fod yna donnau pellach o Covid-19 lle byddai'n ofynnol i aelodau o'r BGC ganolbwyntio eu sylw ar ymateb.

Ystyriodd Aelodau'r risgiau y sgoriau a chamau lliniaru yn y Gofrestr Risg lawn, ynghyd â'r diwygiadau a amlygwyd ers yr adolygiad diwethaf.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cofrestr Risg y BGC.*

## 8 CYNLLUN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd copi o raglen gwaith i'r dyfodol y BGC a thrafodwyd y materion canlynol -

- cadarnhawyd yr eitem y cytunwyd arni yn flaenorol ar y rhaglen ar gyfer cynhwysiant yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol, gan gynnwys (1) gwahodd Alwen Williams, BUEGC i fynd i gyfarfod yn y dyfodol, (2) diweddariad ar yr Asesiad Lles a chynllun gan swyddogion, a (3) y diweddariad arferol ar bob un o flaenoriaethau'r Bwrdd.
- cadarnhaodd y cadeirydd y byddai'n cysylltu â Phrifysgol Glyndŵr gyda'r bwriad iddynt hwyluso sesiwn gweithdy ar gyfer Ionawr (i'w agor i bob is-grŵp).
- cytuno i gynnwys y datblygiad fferm wynt ar y môr fel eitem bosib ar gyfer y dyfodol ac i asesu ei berthnasedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr adeg briodol, yn benodol yn nhermau unrhyw fuddion cymunedol y gellir eu deillio o'r prosiect hwnnw.
- cytuno i gynnwys eitem i roi diweddariad yn nhermau y cam gweithredu sy'n ymwneud ag Adroddiad Archwilio Cymru'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.*

## 9 TRACIO CAMAU GWEITHREDU'R CYFARFOD

Cyflwynwyd copio o ddogfen tracio camau gweithredu'r cyfarfod i'w hystyried.

Nododd Aelodau bod y mwyafrif o'r camau gweithredu wedi cael eu trafod yn gynharach yn y cyfarfod ac roeddent yn parhau neu eisoes wedi cael eu cwblhau. O ran cyfarfodydd Cydgraffu Conwy a Sir Ddinbych yn y dyfodol, nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Ionawr, 2021 – byddai'r rhaglen gwaith i'r dyfodol yn cynnwys diweddariad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol.

***PENDERFYNWYD** nodi'r cynnydd a wnaed ar gamau gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd.*

## 10 MATERION YN CODI

Nododd Aelodau'r prif faterion sy'n codi o'r cyfarfod -

- cam gweithredu ar gyfer sefydliadau partner i roi manylion i Richard Firth (Iechyd Cyhoeddus Cymru) o'u henwebiadau i eistedd ar yr Is-grŵp Blaenoriaeth Lles Meddyliol.
- Yr Is-grŵp Cefnogi Cadernid Amgylcheddol i ailymweld â'r blaenoriaethau presennol ac ymgymryd â gwaith cymunedol mewn perthynas â hynny.

**11 AMDDIFFYNFEYDD MÔR HEN GOLWYN – DIWEDDARIAD**

Er gwybodaeth yn unig.

**12 PROFI, OLRHAIN, DIOGELU YNG NGOGLEDD CYMRU**

Er gwybodaeth yn unig.

**13 ADRODDIAD CYLLID HYBLYG CONWY**

Er gwybodaeth yn unig.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod ac am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.42am.